

GWEITHIO YM MAES BLYNYDDOEDD CYNNAR A GOFAL PLANT



DEWIS GYRFA CADARNHAOL

www.cgymru.org.uk



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

GWEITHIO YM MAES BLYNYDDOEDD CYNNAR A GOFAL PLANT



Mae ymarferwyr ym maes blynyddoedd cynnar a gofal plant yn rhan allweddol o'r gwaith o helpu plant rhwng eu babandod ac oedran ysgol i gyrraedd eu llawn botensial trwy annog eu datblygiad.

Mae dros 18,000 o bobl yn gweithio ym maes blynyddoedd cynnar a gofal plant – maes sy'n cael ei reoleiddio – ac mae tua 4,500 o bobl yn hyfforddi i weithio yn y sector ar unrhyw un adeg. Wrth i fentrau'r Llywodraeth wella mynediad i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant, mae mwy o alw nag erioed am ymarferwyr cymwys sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n gallu cynnig gwasanaeth o safon uchel i blant, eu teuluoedd a'u cynhalwyr.

Mae yna gyfleoedd i bawb – waeth a ydych chi newydd adael yr ysgol, yn edrych am newid gyrfa neu'n dychwelyd i fyd gwaith. Mae pob math o amrywiol swyddi ar gael mewn nifer o leoliadau gwahanol, ac

mae modd gweithio'n rhan-amser neu'n llawn amser, yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol. Gallech weithio mewn meithrinfa ddydd, cylch chwarae, cylch meithrin, canolfan blant integredig neu o'ch cartref fel gwarchodwr plant. Mae gwahanol fathau o swyddi hefyd ar gael ym maes gwaith chwarae ac addysg (mwy o wybodaeth ar gael gan [Chwarae Cymru](#), [Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs](#) a'ch [Awdurdod Addysg Lleol](#)).

Pa bynnag swydd a lleoliad y byddwch chi'n eu dewis, does dim dwywaith y byddwch yn cael gyrfa amrywiol a heriol a fydd yn sicr yn rhoi boddhad mawr i chi. Bob dydd, byddwch yn gweithio'n agos gyda phlant o wahanol gefndiroedd a galluoedd ac yn eu helpu i ddatblygu'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt gydol oes. Mae'n yrfa sy'n ddifyr, yn llawn hwyl ac yn rhoi boddhad mawr bob dydd. Cewch weld y plant yn eich gofal yn datblygu fel unigolion, gan wybod eich bod yn rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd iddyn nhw.

MAE DYLETWSYDDAU NODWEDDIADOL YN CYNNWYS:

- Cynllunio, paratoi a chymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol a hamdden a fydd yn helpu'r plant i ddatblygu;
- Sicrhau diogelwch y plant yn eich gofal bob amser;
- Gwarchod a hyrwyddo hawliau plant;
- Cadw cyfarpar mewn lle diogel a sicrhau glendid yn y gweithle;
- Rhoi gofal personol i fabanod neu blant, gan gynnwys paratoi poteli, bwydo, newid cewynnau, helpu i ymolchi, gwisgo a defnyddio'r toiled;
- Asesu ac arsylwi ar ymddygiad plant a sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu;
- Cadw cofnodion cywir a chynhyrchu adroddiadau ysgrifenedig byr; a
- Gweithio'n agos gyda rhieni, cynhalwyr ac eraill o fewn gweithlu'r plant.

Nodwch y gall rhai o'r dyletswyddau amrywio yn ôl y lefel a'r math o wasanaeth a ddarperir.

I WEITHIO YM MAES BLYNYDDOEDD CYNNAR A GOFAL PLANT, BYDDWCH ANGEN:

- Dawn greadigol a dychymyg i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau sy'n ysgogi, yn herio ac yn difyrru;
- Egni, brwdfrydedd ac ysbryd hwyliog;
- Sgiliau cyfathrebu gwych gyda'r gallu i ryngweithio gyda'r plant;
- Y gallu i weithio'n annibynnol a gweithio'n effeithiol fel rhan o dîm;
- Amynedd a'r gallu i ddelio'n ddigynnwrf ac yn gyson gydag ymddygiad heriol;
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion plant o wahanol oedran;
- Dealltwriaeth dda o ddatblygiad plant;
- Y gallu i osod esiampl bositif a chyfrifol i'r plant;
- Y gallu, yr awydd a'r ymroddiad i ymgymryd â hyfforddiant ac i wella'ch ymarfer yn barhaus; a
- Datgeliad manwl cyfredol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB).

CYMWYSTERAU A PHROFIAD

Byddai rhywfaint o brofiad o weithio gydag amrywiaeth o blant o fantais, er enghraifft gwaith gwirfoddol gyda phlant yn eich cymuned leol. Ond gallwch ddechrau'ch gyrfa heb lawer o brofiad oherwydd bydd digon o gyfle i ennill y profiad a'r cymwystrau angenrheidiol yn y gweithle. Gall hyn olygu gweithio trwy'r [Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i Gymru](#) ar ôl i chi gael swydd, ac wedyn cwblhau cymwystrau pellach.

Gallwch astudio yn y coleg, dilyn prentisiaeth neu ddechrau gweithio ac ennill cymwystrau yn y gwaith. Mae'r math a'r lefel o gymhwyster sydd ei angen yn dibynnu ar y swydd a'r lleoliad sydd gennych chi mewn golwg. Wrth ddechrau gweithio yn y sector am y tro cyntaf, byddwch fel arfer yn dechrau mewn swydd o dan oruchwyliaeth ar lefel cynorthwy-ydd, a byddai'n rhaid cael cymhwyster Lefel 2 o leiaf. Y cymhwyster a argymhellir yw [FfCCh Diploma Lefel 2 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant \(Cymru a Gogledd Iwerddon\)](#).

Mae'r Rhestr o Gymwystrau Derbyniol ar gyfer y [Gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru](#) yn rhoi arweiniad pellach ar gymwystrau a argymhellir ac a dderbynnir.

CYFLOG A DATBLYGIAD GYRFA

Gall awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol neu gwmnïau preifat gynnig gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar a gofal plant, ac mae tua 2,400 o fusnesau yng Nghymru yn cyflogi pobl yn y sector. Felly, mae yna lawer o ddarpar gyflogwyr o gwmpas a fydd yn awyddus i recriwtio staff newydd, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu gan y twf o 8% a fu yn y gweithlu rhwng 2005 a 2010. Neu gallech ddewis fod yn fos arnoch chi eich hun a gweithio o'ch cartref fel gwarchodwr plant cofrestredig.

Mae cyflogau cychwynnol i'r rhai hynny sy'n gweithio yn y sector am y tro cyntaf yn agos i'r isafswm cyflog cenedlaethol, ond yn gallu cynyddu gyda phrofiad a chymwysterau. Gallwch ddatblygu gyrfa trwy ddilyn cwrs coleg neu gael hyfforddiant pellach yn y gwaith i ennill cymwysterau, fel y [Diploma FfCCh mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant](#). Gallwch hefyd gael hyfforddiant datblygiad proffesiynol yn gyson er mwyn gwneud yn siŵr fod gennych chi'r wybodaeth ddiweddaraf. Mae digon o botensial i ddatblygu gyrfa ac i symud i swydd sydd â mwy o gyfrifoldeb a gwell tâl. Er enghraifft, o ddechrau gweithio fel cynorthwy-ydd meithrinfa gallech ddefnyddio'ch profiad a hyfforddiant priodol i gyrraedd swydd rheolwr y feithrinfa gyda chyfrifoldeb dros staff, recriwtio a chyllidebau.

Mae'r tabl isod yn dangos y mathau o swyddi y gallech chi symud ymlaen iddyn nhw wrth i chi ennill cymwysterau:

| Lefel cymhwyster | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 5 |
|------------------------|--|---|--------------------------|
| Cyfrifoldeb | Gweithio o dan oruchwyliaeth | Swydd oruchwylio | Ymarfer uwch a rheolaeth |
| Enghreifftiau o swyddi | Cynorthwy-ydd Cylch Chwarae; Cynorthwy-ydd Meithrinfa; Cynorthwy-ydd Cylch Meithrin. | Arweinydd Cylch Chwarae; Rheolwr Meithrinfa; Arweinydd Cylch Meithrin; Gwarchodwr Plant. | Rheolwr Dechrau'n Deg. |

CAMAU NESAF

- Am fwy o wybodaeth ynglŷn â gweithio yn y sector, beth am ystyried gwneud [FfCCh Lefel 1 Dyfarniad/Tystysgrif Cyflwyniad i Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant \(Cymru a Gogledd Iwerddon\)](#). Fyddwch chi ddim yn gymwys i weithio yn y maes gyda'r cymhwyster hwn, ond bydd yn arwain y ffordd i gymwysterau perthnasol yn y gwaith. Gallwch ennill y cymhwyster hwn trwy ddilyn [Hyfforddeiaeth](#).
- Os oes gennych chi ddiddordeb mewn dilyn cwrs coleg, cysylltwch â [Choleg Addysg Bellach lleol](#) neu gyflenwr hyfforddiant lefel 2 neu 3. Cyfeiriwch at y [Rhestr o Gymwysterau Derbyniol ar gyfer y Gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru](#).
- Ystyriwch chwilio am [Brentisiaeth](#) yn gweithio gyda phlant ifanc. Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi gyflawni diploma FfCCh lefel 2 neu 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.
- Os oes gennych chi brofiad perthnasol o weithio gyda phlant a'ch bod am ddechrau gweithio, gallwch wneud cais am waith yn y sector. Mae awgrymiadau ar sut i ddod o hyd i waith i'w cael yn y llyfryn [Gofal Cymdeithasol – Cyfle Gyrfa Ardderchog](#).

Mae'r sefydliadau canlynol yn rhoi gwybodaeth, adnoddau, hyfforddiant a chefnogaeth:

- NCMA Cymru (Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant Cymru). Mae NCMA yn gymdeithas aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig a nanis yn ogystal ag unigolion a sefydliadau eraill megis llywodraeth leol a chenedlaethol. Mae'n rhaid i warchodwyr plant fod wedi eu cofrestru a'u harchwilio gan [Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru \(AGGCC\)](#).
- Mae [Mudiad Meithrin](#) yn cynnig cefnogaeth i leoliadau blynyddoedd cynnar sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. Cylchoedd Meithrin. Mae [Cam wrth Gam](#) yn is-gwmni i'r Mudiad Meithrin sy'n cynnig amrywiaeth eang o hyfforddiant ym maes blynyddoedd cynnar ledled Cymru.
- Mae [Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd \(NDNA\)](#) yn elusen genedlaethol a chymdeithas aelodaeth sy'n hybu a chefnogi dysgu cynnar plant mewn meithrinfeydd ar draws y DU.
- Mae [Cymdeithas Darparwyr Chwarae Cyn-Ysgol Cymru](#) yn elusen genedlaethol a chymdeithas aelodaeth sy'n hybu a chefnogi gofal cyn-ysgol dwyieithog, addysg a dysgu drwy chwarae.
- Mae [Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs](#) yn bodoli er mwyn helpu cymunedau yng Nghymru trwy hyrwyddo, datblygu a chefnogi clybiau tu allan i'r ysgol sydd o safon, yn rhesymol ac yn hygyrch.
- Mae [Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd \(GGD\)](#) ar gael ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru; maent yn darparu gwybodaeth a chyngor ar faterion amrywiol yn cynnwys gofal plant a hyfforddiant.



ASTUDIAETH ACHOS

**AMY LOUISE KEMSHELL, YMARFERYDD MEITHRINFA,
MEITHRINFA DDYDD WYNGARTH, CYFFORDD LLANDUDNO**

SUT WNAETHOCH CHI GYCHWYN EICH GYRFA YM MAES BLYNYDDOEDD CYNNAR A GOFAL PLANT?

Roeddwn yn awyddus i weithio mewn lleoliad blynyddoedd cynnar ers pan oeddwn yn ifanc iawn ac roedd y syniad o helpu plant i ddysgu a datblygu wedi apelio ataf erioed. Cychwynnais ar fy ngyrfa drwy wneud llawer o waith gwirfoddol mewn ysgolion a rhywfaint mewn meithrinfa ddydd, cyn cwblhau cwrs cynorthwy-ydd addysgu. Ym mis Medi 2010, dechreuais brentisiaeth yn gweithio gyda phlant ym Meithrinfa Wyngarth a'i orffen ym mis Gorffennaf 2011. Rwyf wedi cymhwyso erbyn hyn ac yn aelod staff llawn amser.

Roedd y cynllun prentisiaeth yn fanteisiol iawn i mi gan i mi ddatblygu llawer yn fy swyddogaeth. Dysgais lawer drwy weithio yn y feithrinfa bob dydd a dysgais am rôl ymarferydd meithrinfa drwy fy rheolwr ac aelodau staff eraill. Roeddwn yn mwynhau ochr ysgrifenedig y brentisiaeth hefyd, gan ymchwilio i bethau newydd a datblygu fy ngwybodaeth ym maes gofal plant ymhellach.

BETH YW CYFRIFOLDEBAU'CH SWYDD?

Ar hyn o bryd rwy'n gweithio yn yr ystafell fabanod, yn gofalu am hyd at naw o fabanod rhwng 6 a 24 mis oed bob dydd. Mae fy mhrif ddyletswyddau'n cynnwys:

- Arsylwi ar blant a chynllunio gweithgareddau er mwyn diwallu anghenion datblygu pob plentyn;
- Sicrhau y cynhelir asesiad risg cyn cynnal unrhyw weithgareddau;
- Creu awyrgylch cartrefol ar gyfer y babanod drwy ddilyn patrymau dyddiol a ddarparwyd gan y rhieni; a
- Darparu llyfrau cyfathrebu i'r rhieni a chyfathrebu â nhw ar lafar ynglŷn â chynnydd eu plentyn gydol y diwrnod.

Mae dyletswyddau eraill yn cynnwys bwydo, bwydo â photel, newid cewynnau, sicrhau bod teganau'n cael eu cadw'n lân, chwarae gyda'r plant, darllen storïau a chanu caneuon gydol y dydd a darparu awyrgylch hapus ac ysgogol ar gyfer y plant. Rwy'n cyfrannu at gynllun gweithredol y cwmni hefyd. Mae fy rôl yn cynnwys trefnu digwyddiadau fel 'Toddle Waddle' (gweithgaredd noddedig i blant ifanc a'u rhieni) ac 'Operation Christmas Child'. Ar hyn o bryd, rwy'n cyfeillio dwy o hyfforddeion sydd wrthi'n gwneud eu prentisiaeth. Mae'r rôl hon yn cynnwys eu helpu i ymgartrefu, egluro patrymau dyddiol y feithrinfa iddynt, a'u helpu gydag unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Rwy'n cynnal cyfarfodydd hanner awr gyda'r hyfforddeion hefyd unwaith y mis er mwyn gweld sut mae prentisiaeth y ddwy yn dod yn ei blaen.

PA HYFFORDDIANT YDYCH CHI WEDI EI GAEL?

Yn ystod fy nghyfnod yn Wyngarth, rwyf wedi cyflawni rhaglen ymsefydlu, CCLD lefel 2, hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a diogelwch tân. Yn ystod y mis nesaf, byddaf yn mynychu cyrsiau amddiffyn plant, codi a chario ac asesu risg. Rwy'n gobeithio datblygu i lefel 3 cyn gynted â phosibl a hoffwn gael cychwyn y cwrs yn fuan.

PAM RWY'N MWYNHAU FY SWYDD:

"Rwy'n mwynhau fy swydd fel ymarferydd meithrinfa yn fawr iawn. Rwy'n mwynhau gwyllo'r plant yn tyfu a dysgu. Diolch i'r plant, mae pob diwrnod yn gyffrous ac yn wahanol i'w gilydd. Rwy'n edrych ymlaen at fynd i'r gwaith bob bore a helpu'r plant i fwynhau eu diwrnod, drwy drefnu gweithgareddau y byddant yn eu mwynhau a chreu awyrgylch hapus ar eu cyfer. Rwy'n credu bod fy swydd i yn un o'r swyddi sy'n rhoi'r boddhad mwyaf yn y byd ac rwy'n awyddus iawn i ddatblygu fy ngyrfa ymhellach yn y cwmni hwn ac ym maes blynyddoedd cynnar a gofal plant."

Amy Louise Kemshell

